# Ardal Basn Afon Hafren

# Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

# 2015-2021

## Atodiadau

Rhagfyr 2015

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Horizon house, Deanery Road,
Bryste BS1 5AH
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.gov.uk/environment-agency

Gellir cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn o'n catalog cyhoeddiadau:
www.gov.uk/government/publications

Neu o'n Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid Genedlaethol:
Ff: 03708 506506

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria, 29 Newport Road,
Caerdydd CF24 0TP
E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
http://www.naturalresourceswales.gov.uk

Gellir cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn o'n gwefan:
http://www.naturalresourceswales.gov.uk

Neu ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid:
Ff: 0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd 2015

Cedwir pob hawl. Gellir llungopïo'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir llungopïo'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Cynllun y ddogfen

Rhannwyd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP) yn bedair adran er mwyn helpu darllenwyr i adnabod a chyrchu gwybodaeth berthnasol iddyn nhw. Dyma'r atodiadau. Rhannwyd y cynllun yn bedair adran:

| Enw | Cynulleidfa |
|---|---|
| **Dogfen gryno** | Ar gyfer pobl sy'n dymuno trosolwg o'r cynllun |
| **Rhan A: Cefndir a gwybodaeth ar draws ardal gyfan basn afon** | Ar gyfer pobl sy'n dymuno cael rhywfaint o gefndir deddfwriaethol a gwybodaeth ar draws ardal gyfan basn afon |
| **Rhan B: Crynodebau o'r dalgylchoedd** | Ar gyfer pobl sy'n dymuno manylder yr is-ardaloedd a'r ystadegau llifogydd. Mae'n cynnwys y dalgylchoedd sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd rheoli'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, Ardaloedd lle ceir Perygl o Lifogydd (gafodd eu hadnabod drwy Asesiad Cychwynnol o'r Perygl Llifogydd) ac ardaloedd strategol eraill ar draws ardal basn yr afon. |
| **Rhan C: Atodiadau** | Ar gyfer pobl sy'n dymuno gweld y mesurau manwl ar gyfer cymunedau unigol yn Lloegr. |

Mae'r mesurau sy'n ymwneud â Chymru'n unig i'w gweld yn Ardal Strategol Cymru. Mae'r tablau mesurau ar gyfer pob dalgylch yng Nghymru wedi eu cynnwys yn Rhan B ac nid yn Rhan C: Atodiadau, gan fod y mesurau Cymreig yn ymwneud â'r cymunedau sydd 'mewn perygl mwyaf' fesul dalgylch. Bydd y mesurau Cymreig yn cael eu diweddaru'n barhaus ac mae'r mesurau yn y FRMP yn ddangosol, er eu bod yn gywir adeg eu cyhoeddi. Mae'r mesurau ar draws Ardaloedd Basn Afon sy'n cael effaith ar Ddalgylchoedd Cymru i'w gweld yn yr Atodiadau.

Mae'r mesurau sy'n ymwneud â'r Ardal Basn Afon, Ardal Strategol Lloegr a'r dalgylchoedd yn Lloegr wedi eu cynnwys yn yr atodiadau.

# Mesurau yn Ardal Basn Afon Hafren

| Rhif adnabod y Mesur | Lle | Enw’r Mesur | Manylion y Mesur | Ffynhonnell y perygl llifogydd neu erydiad arfordirol | | | | | | | | | Categori'r amcan | | | Categori'r Mesur | Amseru | Blaenor-iaeth | Perchennog y Mesur | Mesur statudol neu wirfoddol | Math o gynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymuned / Lle | | | Llifogydd o afonydd (prif afon) | Llifogydd o afonydd (cwrs dŵr cyffredin) | Llifogydd o afonydd (prif afon a chyrsiau dŵr cyffredin) | Llifogydd o’r môr | Erydiad arfordirol | Llifogydd o gronfeydd | Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd dŵr daear | Llifogydd carthffosydd | Cymdeithasol | Amgylchedd | Economaidd | Rhwystro, amddiffyn, parodrwydd etc | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd [FRMP] Cylchred-au cynllunio e.e. 2015 - 2021; 2021 - 2027 etc | Argyfwng, Uchel iawn, Uchel, Canolig, Isel | Perchennog y weithred (amlwg), perchennog y cynllun a sefydliadau cefnogi | Statudol neu wirfoddol | Mesur ffynhonnell y cynllun yn deillio o |
| ACT3259 | Ardal Basn Afon Hafren | Darparu cyngor i fforymau gwytnwch lleol | Darparu cyngor a gwybodaeth i Fforymau Gwytnwch Lleol i’w galluogi i leihau effaith llifogydd. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M42 – Cynllunio ymateb digwyddiad brys / cynllunio wrth gefn | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3262 | Ardal Basn Afon Hafren | Darparu cyngor i gymunedau lleol | Darparu cyngor a gwybodaeth i gymunedau lleol i’w galluogi i leihau effaith llifogydd. Cynyddu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd a chofrestru â’r Llinell drwy ein holl gyfathrebiadau â’r cyhoedd. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M43 – Ymwybydd-iaeth a pharodrwydd y cyhoedd | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3265 | Ardal Basn Afon Hafren | Dysgu o Ddigwyddiad-au Llifogydd | Byddwn yn parhau i wella a datblygu ein gwasanaethau wedi’u seilio ar wersi a ddysgwyd yn dilyn llifogydd ac adborth o’r gymuned a phartneriaid. | N | N | I | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M53 – Adfer ac adolygu arall | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3268 | Ardal Basn Afon Hafren | Modelu & Hydroleg | Ymgymryd â mapio a modelu i sicrhau bod ein gwybodaeth o berygl llifogydd yn gyfredol ac addas i’r diben. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad ein rhaglen gyfalaf ar gyfer asedau newydd, gwaith ailwampio i asedau presennol, rhagolygon llifogydd a gwaith rheoli digwyddiadau llifogydd, cyngor cynllunio i awdurdodau lleol a chyngor cyffredinol i’r cyhoedd. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | I | M24 - Rhwystrad arall | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3274 | Ardal Basn Afon Hafren | Rhagolygon llifogydd, rhybuddio a rheoli digwyddiadau | Ymgymryd â gwaith i gynnal a gwella ein rhagolygon llifogydd, rhybuddio rhag llifogydd a gwasanaethau rheoli llifogydd. Canolbwyntio ar ardaloedd i’w gwella fel yr amlygwyd gan lifogydd diweddar ac ymarferion rwtin. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M41 – Rhagolygon llifogydd a rhybuddio | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3286 | Ardal Basn Afon Hafren | Adolygu Cynlluniau Rheoli Asedau System | Adolygu Cynlluniau Rheoli Asedau System yn rheolaidd ynghlwm â chynnal a chadw, anghenion cyllido a gwaith cysylltiedig ag asedau ar draws pob dalgylch. Defnyddio data o SAMPS, arolygon a modelau cyfredol i ddatblygu dull mwy strategol, seiliedig ar berygl i reoli cyffredinol a chynnal a chadw dalgylchoedd. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | I | M35 – Amddiffyniad arall | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |

# Mesurau yn Ardal Basn Afon Hafren

| Rhif adnabod y Mesur | Lle | Enw’r Mesur | Manylion y Mesur | Ffynhonnell y perygl llifogydd neu erydiad arfordirol | | | | | | | | | Categori'r amcan | | | Categori'r Mesur | Amseru | Blaenor-iaeth | Perchennog y Mesur | Mesur statudol neu wirfoddol | Math o gynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymuned / Lle | | | Llifogydd o afonydd (prif afon) | Llifogydd o afonydd (cwrs dŵr cyffredin) | Llifogydd o afonydd (prif afon a chyrsiau dŵr cyffredin) | Llifogydd o’r môr | Erydiad arfordirol | Llifogydd o gronfeydd | Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd dŵr daear | Llifogydd carthffosydd | Cymdeithasol | Amgylchedd | Economaidd | Rhwystro, amddiffyn, parodrwydd etc | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd [FRMP] Cylchred-au cynllunio e.e. 2015 - 2021; 2021 - 2027 etc | Argyfwng, Uchel iawn, Uchel, Canolig, Isel | Perchennog y weithred (amlwg), perchennog y cynllun a sefydliadau cefnogi | Statudol neu wirfoddol | Mesur ffynhonnell y cynllun yn deillio o |
| ACT3287 | Ardal Basn Afon Hafren | Gweithio ag eraill i osgoi datblygiad anaddas | Cydweithio’n agos gydag awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, busnesau a gweithredwyr isadeiledd i osgoi datblygiad anaddas drwy’r broses gynllunio. Ble bydd datblygiad yn gorfod digwydd mewn ardaloedd perygl llifogydd canolig neu uchel, sicrhau ei fod yn gynaliadwy, nad yw’n cynyddu’r perygl llifogydd ac yn ystyried yr effaith ar newid hinsawdd. | N | N | I | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M21 - Osgoi | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | CFMP |
| ACT3298 | Ardal Basn Afon Hafren | Cydsyniadau Amddiffyn rhag Llifogydd | Sicrhau nad yw gwaith mewn, dros neu ger y prif afonydd yn cynyddu perygl llifogydd neu’n achosi llygredd drwy gydsynio effeithiol. Defnyddio’r broses gydsynio i adnabod cyfleoedd i wella’r amgylchedd dŵr. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | I | N | M21 - Osgoi | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3301 | Ardal Basn Afon Hafren | Cynorthwyo gweithredu systemau draenio cynaliadwy | Sicrhau nad oes cynnydd mewn dŵr ffo o ddatblygiadau newydd drwy gynghori ar gynllunio. Hyrwyddo gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) mewn datblygiadau newydd i ennill buddion amgylcheddol, ansawdd dŵr, cymdeithasol a pherygl llifogydd. | N | N | I | N | N | N | N | N | N | N | I | I | M21 - Osgoi | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3307 | Ardal Basn Afon Hafren | Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau glannau | Cynyddu ymwybyddiaeth ac annog tirfeddianwyr glan yr afon i gyflawni eu cyfrifoldebau. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | I | N | M24 - Rhwystrad arall | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3309 | Ardal Basn Afon Hafren | Annog ffermio sensitif i ddalgylch | Gweithio gyda thirfeddianwyr, Llywodraeth leol a chenedlaethol, i annog arferion ffermio gorau i leihau dŵr ffo cyflym ac erydiad pridd. Er enghraifft, lleihau pyllau arwyneb, technegau cnydau a chynlluniau rheoli pridd. Cyfrannu at ymchwil a datblygiad i adnabod arfer gorau i leihau dŵr ffo drwy newid defnydd tir. | N | N | I | N | N | N | N | N | N | N | I | I | M31 – Rheoli llifogydd naturiol / dŵr ffo a rheoli dalgylch | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3310 | Ardal Basn Afon Hafren | Sicrhau iawndal gorlifdir addas | Sicrhau bod iawndal gorlifdir addas ar gyfer gorlifdiroedd afonol diamddiffyn i liniaru datblygiad, drwy’r broses gynllunio. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M23 - Lleihau | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |

# Mesurau yn Ardal Basn Afon Hafren

| Rhif adnabod y Mesur | Lle | Enw'r Mesur | Manylion y Mesur | Ffynhonnell y perygl llifogydd neu erydiad arfordirol | | | | | | | | | Categori'r amcan | | | Categori'r Mesur | Amseru | Blaenor-iaeth | Perchennog y Mesur | Mesur statudol neu wirfoddol | Math o gynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymuned / Lle | | | Llifogydd o afonydd (prif afon) | Llifogydd o afonydd (cwrs dŵr cyffredin) | Llifogydd o afonydd (prif afon a chyrsiau dŵr cyffredin) | Llifogydd o'r môr | Erydiad arfordirol | Llifogydd o gronfeydd | Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd dŵr daear | Llifogydd carthffosydd | Cymdeithasol | Amgylchedd | Economaidd | Rhwystro, amddiffyn, parodrwydd etc | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd [FRMP] Cylchred-au cynllunio e.e. 2015 - 2021; 2021 - 2027 etc | Argyfwng, Uchel iawn, Uchel, Canolig, Isel | Perchennog y weithred (amlwg), perchennog y cynllun a sefydliadau cefnogi | Statudol neu wirfoddol | Mesur ffynhonnell y cynllun yn deillio o |
| ACT3311 | Ardal Basn Afon Hafren | Hyrwyddo gwytnwch llifogydd ac atal llifogydd | Gweithio gydag awdurdodau lleol, perchnogion tai, busnesau, datblygwyr a ffermwyr i hyrwyddo gwytnwch llifogydd a diogelu rhag llifogydd ac ystyried y posibilrwydd o fesurau diogelu lefel eiddo. | N | N | I | N | N | N | N | N | N | I | N | N | M23 - Lleihau | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT3312 | Ardal Basn Afon Hafren | Cydweithio gyda phartneriaid | Cynyddu ymwybyddiaeth gyda phartneriaid allweddol a rheolwyr tir yn eu rolau mewn rheoli perygl llifogydd. Cydweithio gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a phartneriaid allweddol eraill i ganfod dulliau newydd i reoli perygl llifogydd ac archwilio cyfleoedd ar gyfer deilliannau ar y cyd. | N | N | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | M44 – Parodrwydd arall | 2015 - 2021 | Uchel iawn | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5814 | Ardal Basn Afon Hafren | Adnabod cyfleoedd ar gyfer adfer y gorlifdir | Gweithio gyda Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid a thirfeddianwyr eraill, i adnabod cyfleoedd ar gyfer adfer gorlifdiroedd ac afonydd (yn unol â'r Cynllun Rheoli Basn Afon) yn cynnwys mesurau sy'n cynyddu storio yn y dalgylch uchaf drwy fasnau cadw/gwlyptiroedd/gwanhau, cynyddu cysylltedd y gorlifdir, gwella morffoleg sianel ac amrywiaeth cynefinoedd ac annog gweithgareddau allai fod â'r potensial i leihau dŵr ffo mewn ardaloedd i lawr yr afon, tra'n darparu buddion ehangach (bioamrywiaeth, amddiffyn pridd a gwella ansawdd dŵr). | I | N | N | N | N | N | N | N | N | N | I | I | M31 – Rheoli llifogydd naturiol / rheoli dŵr ffo a dalgylch | 2039 + | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5899 | Ardal Basn Afon Hafren | Sicrhau bod rhaglen cynnal refeniw iach yn bodoli | Sicrhau bod rhaglen cynnal refeniw iach, seiliedig ar berygl yn bodoli. Rhaglen sy'n blaenoriaethu gwaith rheoli perygl llifogydd ar draws pob dalgylch, sy'n cael ei adlewyrchu yn y ceisiadau cynnal o fewn Cynlluniau Rheoli Asedau Systemau perthnasol, i gynnwys, lle'n bosibl, cyfleoedd ar gyfer gwaith cynnal arfaethedig i gynefino cyrsiau dŵr a chreu cynefin drwy gyllido allanol/partneriaeth bosibl. Ymgysylltu rhanddeiliaid allweddol â'r rhaglen gynnal a chadw. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M24 – Rhwystrau eraill | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |

# Mesurau yn Ardal Basn Afon Hafren

| **Rhif adnabod y Mesur** | **Lle** | **Enw'r Mesur** | **Manylion y Mesur** | **Ffynhonnell y perygl llifogydd neu erydiad arfordirol** | | | | | | | | | **Categori'r amcan** | | | **Categori'r Mesur** | **Amseru** | **Blaenor-iaeth** | **Perchennog y Mesur** | **Mesur statudol neu wirfoddol** | **Math o gynllun** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymuned / Lle | | | Llifogydd o afonydd (prif afon) | Llifogydd o afonydd (cwrs dŵr cyffredin) | Llifogydd o afonydd (prif afon a chyrsiau dŵr cyffredin) | Llifogydd o'r môr | Erydiad arfordirol | Llifogydd o gronfeydd | Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd dŵr daear | Llifogydd carthffosydd | Cymdeithasol | Amgylchedd | Economaidd | Rhwystro, amddiffyn, parodrwydd etc | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd [FRMP] Cylchred-au cynllunio e.e. 2015 - 2021; 2021 - 2027 etc | Argyfwng, Uchel iawn, Uchel, Canolig, Isel | Perchennog y weithred (amlwg), perchennog y cynllun a sefydliadau cefnogi | Statudol neu wirfoddol | Mesur ffynhonnell y cynllun yn deillio o |
| ACT5900 | Ardal Basn Afon Hafren | Cynghori sut gall datblygiad newydd fod yn fwy gwydn rhag llifogydd | Helpu i leihau'r difrod mae llifogydd yn eu gwneud drwy gynghori awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, busnesau a gweithredwyr isadeiledd ar sut y gellir dylunio datblygiad newydd i fod yn fwy gwydn i wrthsefyll llifogydd. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | N | M23 - Lleihau | 2015 - 2021 | Canolig | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5901 | Ardal Basn Afon Hafren | Mae pob cronfa ddŵr perygl uchel yn cael eu rheoleiddio dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 | Mae pob cronfa ddŵr 'perygl uchel' yn cael eu rheoleiddio yn unol â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975. Maen nhw eisoes yn cael eu monitro drwy fesurau busnes. | N | N | N | N | N | I | N | N | N | I | N | I | M32 – Rheoliad llif dŵr | 2015 - 2021 | Uchel iawn | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5902 | Ardal Basn Afon Hafren | Darparu gwaith argyfwng | Sicrhau cyllid a darparu gwaith brys lle bo angen ar gyfer ein hasedau. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | I | M33 – Gwaith sianel, arfordirol a gorlifdir | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5903 | Ardal Basn Afon Hafren | Darparu gwasanaeth ymateb i lifogydd | Darparu gwasanaeth ymateb i lifogydd 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn yn cynnwys gweithgareddau ymateb gweithredol a darparu gwybodaeth | I | N | N | N | N | N | N | N | N | I | N | I | M41 – Rhagolygu llifogydd a rhybuddio | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5904 | Ardal Basn Afon Hafren | Mae gan gronfeydd dŵr perygl uchel AA/ CNC gynlluniau ar y safle | Mae gan gronfeydd dŵr 'perygl uchel' Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru gynlluniau ar-safle mewn lle. | N | N | N | N | N | I | N | N | N | I | N | I | M42 – Cynllunio ymateb i ddigwyddiad brys/cynllunio wrth gefn | 2015 - 2021 | Uchel iawn | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT5905 | Ardal Basn Afon Hafren | Cydweithio'n agos â CNC a'r AA | CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd i gydweithio'n agos i ystyried y buddion neu'r niweidion i'r basn afon cyfan ym mhob penderfyniad a gweithgaredd. | I | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | I | M44 – Parodrwydd arall | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |

# Mesurau yn Ardal Basn Afon Hafren

| Rhif adnabod y Mesur | Lle | Enw'r Mesur | Manylion y Mesur | Ffynhonnell y perygl llifogydd neu erydiad arfordirol | | | | | | | | | Categori'r amcan | | | Categori'r Mesur | Amseru | Blaenoriaeth | Perchennog y Mesur | Mesur statudol neu wirfoddol | Math o gynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymuned / Lle | | | Llifogydd o afonydd (prif afon) | Llifogydd o afonydd (cwrs dŵr cyffredin) | Llifogydd o afonydd (prif afon a chyrsiau dŵr cyffredin) | Llifogydd o'r môr | Erydiad arfordirol | Llifogydd o gronfeydd | Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd dŵr daear | Llifogydd carthffosydd | Cymdeithasol | Amgylchedd | Economaidd | Rhwystro, amddiffyn, parodrwydd etc | Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd [FRMP] Cylchred-au cynllunio e.e. 2015 - 2021; 2021 - 2027 etc | Argyfwng, Uchel iawn, Uchel, Canolig, Isel | Perchennog y weithred (amlwg), perchennog y cynllun a sefydliadau cefnogi | Statudol neu wirfoddol | Mesur ffynhonnell y cynllun yn deillio o |
| ACT6930 | Ardal Basn Afon Hafren | Ymgorffori materion Newid Hinsawdd i waith rheoli perygl llifogydd | Bydd effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried mewn cynlluniau ar gyfer gwaith mewn lleoedd penodol i leihau perygl llifogydd o bob ffynhonnell. Gwneir darpariaeth ychwanegol yn ystod y cynllunio a'r adeiladu gwreiddiol, neu gellir ei gohirio gan adael lle yn y cynllun o adeileddau (fel sylfeini waliau mawr) i hwyluso hyn. Bydd arweiniad diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016. Bydd yn argymell defnyddio senarios a dulliau caniatáu gan Ardal Basn Afon sydd wedi'u cynnwys yn yr arweiniad diweddar 'Planning Decisions and Climate Change' i Gynllunwyr Awdurdodau Lleol. | N | N | N | N | N | I | I | I | I | I | N | I | M33 – Gwaith sianel, arfordirol a gorlifdir | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |
| ACT6931 | Ardal Basn Afon Hafren | Adnabod ble mae gweithio gyda phrosesau naturiol yn gallu helpu i wella gwytnwch yn erbyn newid hinsawdd | Cynhyrchu mapiau cyfle gweithio gyda phrosesau naturiol i ddangos ble y byddai'r mesurau hyn o gymorth:<br>- lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol<br>- dalgylchoedd yn addasu ac yn dod yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd<br>- gwella ansawdd dŵr a<br>- gwella'r amgylchedd.<br>Cynhyrchwyd mapiau cyfle plannu coetiroedd eisoes, sy'n nodi ble gallai plannu coed leihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr.<br>Rhwng 2015-2017, bydd y mapiau hyn yn cael eu hehangu i gynnwys ystod o fesurau gweithio gyda phrosesau naturiol.<br>Gallai plannu coed gael swyddogaeth ychwanegol drwy liniaru effaith allyriadau $CO_2$ cynyddol a gallant roi cysgod i gyrsiau dŵr gan helpu rhywogaethau pysgod i addasu i dymereddau dŵr uwch. | N | N | I | N | I | N | N | N | N | I | I | I | M31 – Rheoli llifogydd naturiol/ rheoli dŵr ffo a dalgylch | 2015 - 2021 | Uchel | Asiantaeth yr Amgylchedd | FRMP statudol | FRMP |

# Ydych chi am ddarganfod mwy amdanom ni neu am eich amgylchedd?

## Asiantaeth yr Amgylchedd

**Ffoniwch ni ar: 03708 506 506 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)**

**E-bost:** enquiries@environment-agency.gov.uk

**Neu ewch i'n gwefan:** www.gov.uk/environment-agency

**Llinell Frys: 0800 807 060 (24 awr)**

**Llinell Llifogydd: 0345 988 1188 / 0845 988 1188 (24 awr)**

## Cyfoeth Naturiol Cymru

**Ffoniwch ni ar: 0800 065 3000 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)**

**E-bost:** ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Neu ewch i'n gwefan:** www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Llinell Frys: 0800 807 060 (24 awr)**

**Llinell Llifogydd: 0345 988 1188 (24 awr)**